Adroddiad i’r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod: 12 Rhagfyr 2017

Aelod / Swyddog Arweiniol: Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau’r Gyfraith, Adnoddau Dynol a Democrataidd

Awdur yr Adroddiad: Helen Makin Rheolwr Gweithrediadau’r Gyfraith a Chaffael a Mike White Rheolwr Categori (Gwasanaethau Proffesiynol) Gwasanaeth Caffael Cydweithrediadol

Teitl: Gwasanaeth a Reolir ar gyfer Darparu Gweithwyr Asiantaeth.

---

**1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?**

I gael cymeradwyaeth i ddechrau caffael a mynd i gytundeb i benodi asiantaeth i gyflenwi staff dros dro i'w defnyddio gan Gyngor Sir Ddinbych. Bydd hwn yn caffael cydweithredol gyda Chyngor Sir y Fflint.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?**

Mae gan y Cyngor gytundeb presennol gyda Matrix SCM i gyflenwi staff asiantaeth i’r Cyngor. Mae’r cytundeb ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych yn dod i ben ar 23 Chwefror 2018 a chytundeb Cyngor Sir y Fflint yn dod i ben ar 20 Hydref 2017 ond wedi ei ymestyn fel bod y dyddiad cychwynnol yr un fath â chytundeb Sir Ddinbych. Mae gofyniad parhaus am staff asiantaeth. Bydd y cytundeb am 3 blynedd gyda chyfle i ymestyn y cytundeb am gyfnod pellach o 12 mis.

2.2 Cydymffurfio â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau'r Cyngor a Deddfwriaeth UE a dilyn proses dendro gystadleuol. Cynigir defnyddio fframwaith Mstar2 (Gwasanaethau a Reolir ar gyfer Staff Asiantaeth Dros Dro) sydd wedi ei sefydlu gan ESPO (Eastern Shires Purchasing Organisation). Mae’r fframwaith ar gael i’w ddefnyddio'n genedlaethol gan unrhyw gorff sector cyhoeddus yn y DU. Mae’r fframwaith yn cyd-fynd â deddfwriaeth caffael DU/UE. Aseswyd cyflenwyr wedi eu rhestru yn y fframwaith yn ystod y broses caffael ar eu sefydlogrwydd ariannol, hanes blaenorol, profiad a gallu technegol a phroffesiynol. Mae’r cyfraddau wedi’u nodi yn y fframwaith wedi eu hasesu gan ESPO yn ystod y broses caffael ac yn cynrychioli prisiau manteisiol yn economaidd.

**3. Beth yw’r Argymhellion?**

3.1 I ddechrau caffael gan ddefnyddio Rhif Fframwaith 653F ESPO MSTAR2.

3.2 I Gyngor Sir Ddinbych gydweithio â Chyngor Sir y Fflint wrth arwain a rheoli’r broses caffael.

3.3 I’r Cyngor i fynd i gytundeb â’r cyflenwr llwyddiannus. Bydd y cytundeb am 3 blynedd gyda chyfle i ymestyn y cytundeb am gyfnod pellach o 12 mis.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor gytundeb â Matrix. Dyfarnwyd y cytundeb hwn o dan MSTAR1, y cytundeb fframwaith blaenorol sydd wedi cael ei ddisodli gan MSTAR2.

4.2. Y Cyflenwyr ar fframwaith MSTAR yw: Commensura; de Poel; Matrix; Manpower; Pertemps; Randstad Sourceright a Reed. Rhain yw'r holl asiantaethau blaenllaw i gyflenwi gweithwyr dros dro.

4.3 Cyflawnodd y Gwasanaeth Caffael ymarfer meincnodi i gymharu cytundeb MSTAR2 yn erbyn y fframwaith Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) a daethpwyd i'r canlyniad bod y cytundeb MSTAR2 yn fwy buddiol i Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint oherwydd y raddfa codi yn ôl yr awr sy'n cael ei osod gan y NPS i gael defnyddio eu fframwaith o'i gymharu â'r raddfa wedi'i osod gan ESPO sydd ddwywaith y raddfa sy'n cael ei osod gan NPS.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 *Datblygu'r Economi Leol:*
Bydd y cytundeb y galluogi asiantaethau recriwtio sydd newydd eu sefydlu neu i gael eu creu yn Sir Ddinbych i allu cofrestru i'r gwasanaeth a reolir ar unrhyw adeg yn ystod oes y cytundeb. O ganlyniad bydd hyn yn galluogi preswylwyr Sir Ddinbych, rŵan ac yn y dyfodol i chwilio am swyddi trwy'r asiantaethau hyn. Bydd potensial bod yr incwm a gynhyrchir o'r cyfleoedd cyflogaeth yn mynd yn ôl i'r economi leol.
Mae gan y gweithwyr asiantaeth y cyfle i dderbyn hyfforddiant ar y swydd a'r potensial i drio am swyddi yn y dyfodol pan fyddant yn codi.

5.2 *Moderneiddio'r cyngor i ddarparu arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid:*
Mae defnyddio gwasanaeth asiantaeth a reolir yn galluogi'r Awdurdod i gyflawni'r safon o wasanaethau y disgwylir gan ei breswylwyr yn ystod cyfnodau o ddiffyg adnoddau annisgwyl.
Mae'r hyblygrwydd a gyflawnir trwy ddefnyddio staff asiantaeth yn galluogi gwasanaethau i ddatblygu eu gweithrediadau i gyflawni effeithiolrwydd wrth gynnal rheolaeth o'i gyllidebau.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Y cyfanswm mae'r Cyngor yn ei wario gyda Matrix yw:

Cyngor Sir Ddinbych 2016 – 2017 = £710,145 (Ffynhonnell - Anfonebau Matrix)
Cyngor Sir Ddinbych 2017 – 2018 = £685,031 (Ffynhonnell - Anfonebau Matrix, Ebrill – Tachwedd cynhwysol)

Felly, dros gyfnod o 4 blynedd o dan y cytundeb newydd, rhagwelir y bydd gwariant y cytundeb yn oddeutu:

Cyngor Sir Ddinbych = £4,110,186 (2017-18 Gwariant /8 x 48)

6.2 Mae gan y Cyngor angen busnes i gadw cyflenwr o weithwyr dros dro i lenwi swyddi gwag neu absenoldebau heb eu cynllunio, neu i lenwi'r gofyniad ar gyfer staff arbenigol dros y tymor byr. Felly mae gofyniad i gael cytundeb yn ei le gyda chyflenwr sydd gyda digon o gymhwysedd ac adnoddau i gwrdd â gofynion Cyngor Sir Ddinbych. Bydd y cytundeb yn galluogi'r Cyngor yn ei gyfanrwydd i barhau i gyflawni gwasanaethau i'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaeth.

Tydi'r cytundeb asiantaeth gyda Matrix ddim yn cynnwys holl wariant y Cyngor ar asiantaethau. Nid yw'n cynnwys yr holl ofynion ysgol am Athrawon Llanw sydd yn cael eu cyflogi trwy'r Fframwaith Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol gyda New Directions, a hefyd gweithwyr asiantaeth Gofal Cartref gan Wasanaethau Cymdeithasol, sydd ddim i'w cael o fewn sgôp y cytundeb Matrix.

Y gyllideb refeniw presennol ar gyfer asiantaethau i Gyngor Sir Ddinbych yn 17/18 yw £827,944 (heb gynnwys yr ysgolion). Fodd bynnag, mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys gwariant ar gyfer yr asiantaethau sydd ddim yn Matrix a enwyd uchod. Tydi'r gyllideb sydd ar gael ddim yn cynnwys yr holl wariant presennol ar staff asiantaeth gan fod Gwasanaethau yn ariannu'r costau hyn o sawl peth arall ac arbedion o swyddi gwag.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Mae'r Asesiad Effaith ar Les yn crynhoi effaith debygol y cytundeb ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Sir Ddinbych, Cymru a'r byd. Canlyniad yr asesiad yw bod defnydd o'r fframwaith Asiantaeth yn cynnig hyblygrwydd ar gyfer y Cyngor a'r gweithlu lleol. Bydd y Cyngor yn cyflogi gweithwyr asiantaeth mewn amgylchiadau lle nad yw cyflogaeth llawn amser yn ymarferol a lle na fyddai'r gweithlu lleol fel arall yn cael eu cyflogi, derbyn hyfforddiant ac ennill profiad. Bydd yn creu swyddi lleol gan gynnwys swyddi sydd angen defnydd o'r iaith Gymraeg.

Mae'r adroddiad llawn i'w gweld yn yr atodiadau sydd ynghlwm fel Atodiad 1.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Trwy gydol y cyfnod cytundeb presennol, mae cyfarfodydd adolygu busnes chwarterol rheolaidd wedi'u trefnu gyda Matrix, gyda chynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Caffael Cydweithredol, Gwasanaeth Adnoddau Dynol Cyngor Sir y Fflint ac Adain Archwilio Mewnol Cyngor Sir y Fflint yn mynychu.
Tydi Gwasanaeth Adnoddau Dynol Cyngor Sir Ddinbych ddim yn mynychu cyfarfodydd chwarterol ond yn derbyn adroddiadau bob chwarter.
Nid oes unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus neu adroddiad i Archwilio.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r cynigion yn yr adroddiad hwn yn cefnogi anghenion busnes y Cyngor ac yn ymddangos i gyflawni gwerth am arian ac felly yn cael ei gefnogi. Mae cyllidebau yn cael eu cynnal o fewn y gwasanaethau a chyfrifoldeb y Penaethiaid Gwasanaeth yw sicrhau fod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Bydd yn fwyfwy pwysig dros y blynyddoedd nesaf wrth i'r pwysau i adnabod arbedion gynyddu.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nodwyd y risgiau allweddol canlynol a byddant yn cael eu rheoli gan yr Uned Caffael Cydweithredol a Gwasanaethau Cyfreithiol:

- Her gyfreithiol o ran y broses gaffael – fe'i rheolir trwy fewnbwn cyngor cyfreithiol arbenigol o ran y broses a llunio'r ddogfennaeth angenrheidiol;
- Trefniadau trawsnewid yn codi o newid cyflenwr – gellir cytuno ar gynllun pontio rhwng y cyflenwr dyledus a'r cyflenwr a benodwyd.
- Codiad annisgwyl yn y galw am weithwyr dros dro – gallu'r cyflenwr i ymdopi â'r cynnydd a'r cwymp mewn galw i gael ei werthuso fel rhan o'r broses caffael.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae Cabinet angen awdurdodi dechrau'r weithdrefn caffael yn unol ag adran 2.7.2 iii o Reolau'r Weithdrefn Gontractau'r Cyngor.

11.2 Mae gan y Cyngor hefyd y pŵer i gyhoeddi'r caffael a mynd i gytundeb yn unol ag adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (pŵer i ymgymryd ag unrhyw weithred i hwyluso, neu sy'n arwain at neu'n anorfod, i ryddhau unrhyw un o'u swyddogaethau); adran 135 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (pŵer i wneud Rheolau Sefydlog i lywodraethu'r weithred o fynd i gytundeb), adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (penodi swyddogion y maent yn eu hystyried i fod yn angenrheidiol i'r awdurdod ryddhau ei swyddogaethau); adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 1999 (dyletswydd gyffredinol ar awdurdod o werth gorau i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus o ran ymarfer swyddogaethau) ac adran 1(2) Deddf Cytundebau Llywodraeth Leol 1997 (galluogi awdurdodau lleol i fynd i mewn i ystod eang o gytundebau gan ddarparu asedau neu wasanaethau mewn perthynas â rhyddhau eu swyddogaethau).